

PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 5 RHAGFYR 2017

Yn
bressenol: Cynghorydd Patel(Cadeirydd)

Cynghorwyr Philippa Hill-John, Owen Jones, Caerhirfryn, Lay,
Mackie, Owen, Wong a/ac Wood

19 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lay.

20 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:

Y Cynghorydd Owen

Eitem 5

Buddiant Personol

21 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref a 7 Tachwedd 2017 yn gofnod cywir gan y Pwyllgor a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

22 : ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU AR GYFER RHEOLI RISG LLIFOGYDD YNG
NGHAERDYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn darparu cyfle i Aelodau'r Pwyllgor adolygu rolau a chyfrifoldebau'r Cyngor a'i bartneriaid statudol yn nhermau rheoli risg o lifogydd yng Nghaerdydd.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgyrchu a'r Amgylchedd, Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Matt Wakelam, Rheolwr Gweithredol; Tim England Cyfoeth Naturiol Cymru; a Nick Holt a Redmond Jenkins o Dŵr Cymru i'r cyfarfod.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Michael i roi datganiad byr. Dywedodd y Cynghorydd Michael, yn ystod y gaeaf, fod llifogydd yn aml ar flaen meddyliau pobl. Mae'n ymddangos bod llifogydd yn mynd yn waeth a chymerir y bygythiad o lifogydd o ddifrif gan yr awdurdod a'i bartneriaid.

Dywedwyd wrth aelodau, o ganlyniad i batrymau tywydd cyfnewidiol a digwyddiadau glaw dwys iawn, fod risgiau o lifogydd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar. Gall llifogydd gael effaith sylweddol ar eiddo a busnesau a gall llifogydd ddod o nifer o gyrsiau dŵr, gan gynnwys afonydd, nentydd, y môr ac yn fwy cyffredin o ddraeniau sydd wedi'u blocio a hen garthfogydd na allant ymdopi â maint y dŵr o ganlyniad i law trwm.

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn rhannu ymrwymiad i leihau'r risg o lifogydd yng Nghaerdydd ac, er nad yw Caerdydd wedi cael llawer o ddigwyddiadau sylweddol o lifogydd, mae nifer gynyddol o ddigwyddiadau o lifogydd sy'n digwydd mewn cyfnodau o law trwm.

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ac mae wedi paratoi 'Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Risg o Llifogydd.' Ategwyd copi o'r ddogfen hon i'r adroddiad. Mae'r Strategaeth yn rhoi manylion o rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau sy'n gweithio yng Nghaerdydd sy'n cyfrannu at reoli'r risg o lifogydd ac yn esbonio sut rydym â'r nod o weithio gyda'n gilydd i leihau canlyniadau llifogydd. Fel yr Awdurdod Arweiniol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am lifogydd dŵr wyneb, nentydd, ceuffosydd a dŵr daear. Mae'r Strategaeth hefyd yn amlinellu cyfrifoldebau partneriaid allweddol megis Dŵr Cymru, CNC a'r Bwrdd Draenio Mewnol. Roedd trosolwg o rolau a chyfrifoldebau pob un o'r 'Awdurdodau Rheoli Risg' yn gynwysedig yn Nhabl 2.1 Atodiad A i'r adroddiad.

Yn ogystal â'r partneriaid allanol, mae gan wahanol wasanaethau rôl o ran cefnogi atal a darparu ar gyfer digwyddiadau llifogydd, gan gynnwys Rheoli Argyfyngau, yr Awdurdod Porthladdoedd, Priffyrdd, Tai, Cynllunio, Gwasanaethau Cymdeithasol a Glanhau Strydoedd.

Crynowyd amcanion, blaenoriaethau a gofynion statudol y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli'r Risg o Llifogydd yn yr adroddiad. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr awdurdod yn gwario tua £1 miliwn bob blwyddyn ar weithgareddau sy'n perthyn yn uniongyrchol i reoli risg llifogydd drwy'r gwasanaethau a ddarperir gan y timau Draenio Priffyrdd. Heb gynnal a chadw, amcangyfrifir, mewn unrhyw flwyddyn, bydd effaith economaidd posibl risg o lifogydd lleol i eiddo dros £13.2 miliwn.

Gwahoddodd y Cadeirydd Tim England o CNC a Nick Holt o Dŵr Cymru i roi cyflwyniadau yn gosod eu rolau a'u cyfrifoldebau. Cafodd Aelodau wahoddiad i wneud sylwadau, gofyn cwestiynau neu geisio eglurhad pellach am y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr aelodau pa gorff fyddai'n gweithredu fel yr awdurdod arweiniol os digwydd bod digwyddiad mawr o lifogydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau, os digwydd bod llifogydd mawr, câi Fforwm Gwydnwch Lleol ei sefydlu a gâi ei gadeirio gan gydweithwyr yn Heddlu De Cymru. Byddai pob partner yn cymryd rhan. Ar gyfer digwyddiadau llifogydd llai byddai CNC yn arwain ac ar gyfer llifogydd o gyrsiau dŵr, byddai'r awdurdod lleol yn arwain.
- Dywedwyd wrth aelodau fod cynllun Rheoli Argyfyngau ar waith er mwyn ymateb i ddigwyddiadau llifogydd lleol. Bydd Swyddogion Gorchymyn Arian yn gweithio i reoli'r fath ddigwyddiadau; i neilltuo adnoddau i gyfyngu ar hyd y difrod oherwydd y llifogydd; ac i gynghori preswylwyr. Gan fod systemau ar waith sy'n darparu data da yn nhermau tebygolrwydd digwyddiadau llifogydd, mae gan yr awdurdod hyd at 12 awr i baratoi os digwydd bod llifogydd.
- Gan ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, dywedodd Nick Holt o Ddŵr Cymru nad oedd ganddo'r ffigyrau ar gael ar gyfer capasiti gweithredol gweithfeydd trin carthffosiaeth, ond rhoddodd addewid i ddweud wrth Aelodau yn ôl y drefn maes o law.
- Gofynnodd Aelod a oes gan yr awdurdod ddigon o adnoddau ar gael i ddarparu'r gwasanaethau ychwanegol sy'n ofynnol yn y dyfodol. Dywedodd Swyddogion, yn nhermau elfen strategol y gwasanaeth, fod digon o adnoddau ar waith, a'r unig faes twf oedd systemau draenio cynaliadwy (SDCau). Mae'n rhaid i'r elfen

weithredol ehangu wrth i'r Ddinas ehangu a bydd angen sicrhau bod adnoddau ar gael er mwyn rheoli twf y Ddinas. Bydd rheolaeth well ar asedau yn galluogi'r adnoddau hynny i gael eu defnyddio orau. Hefyd dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr awdurdod yn ymwybodol o'r asesiadau ar risg o lifogydd yn yr CDLI ac roedd yn ceisio cael datblygwyr i ddarparu adnoddau er mwyn rheoli'r risg o lifogydd.

- Hefyd roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i godi ymwybyddiaeth a pharodrwydd ymhlith aelodau'r cyhoedd mewn ardaloedd â risg o lifogydd. Mae'r awdurdod a'i bartneriaid yn targedu lleoliadau risg uchel gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth a darparu cyngor ac arweiniad. Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw 'grwpiau llifogydd' lleol – grwpiau o breswylwyr sydd wedi'u hyfforddi i adweithio yn ystod digwyddiadau o lifogydd – wedi'u sefydlu yng Nghaerdydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod 1 grŵp llifogydd yn y Rhath ac mae CNC wedi cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth yng Nghlan-yr-afon. Mae CNC wedi ymgynghori â Thîm Rheoli Argyfyngau y Cyngor er mwyn blaenoriaethu ym mhle y dylid cyflwyno'r sesiynau codi ymwybyddiaeth. Roedd gwaith yn y maes hwn yn gyfredol a byddai'n parhau.
- Hefyd gofynnodd yr aelodau pa mor rhagweithiol neu ymatebol oedd yr awdurdod wrth lanhau draeniau sydd wedi'u rhwystro gan ddail sydd wedi disgyn. Dywedodd y swyddogion fod timau glanhau a draenio wedi gwella o ran ymgysylltu ac yn gweithio gyda'i gilydd i dargedu ardaloedd a nodwyd fel manau poeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn bwriadu gwella ymagwedd strategol ymhellach trwy wella meddalwedd a deallusrwydd er mwyn nodi ardaloedd risg a thargedu adnoddau yn unol â hynny. At hynny, mae hefyd yn bosibl blaenoriaethu adnoddau ar adegau galw uchel ac i ddefnyddio gweithredwyr glanhau i gefnogi timau draenio pan fydd angen.
- Nododd yr aelodau fod yr awdurdod yn gwario tua £1 miliwn y flwyddyn ar weithgareddau sy'n perthyn i reoli llifogydd ac os peidiodd y Cyngor ag ymgymryd â'r gweithredoedd hyn, amcangyfrifir y byddai'r effaith economaidd bosibl o risg llifogydd lleol i eiddo dros £13.2 miliwn. Gofynnodd yr aelodau sut y cyfrifwyd y ffigwr olaf. Dywedodd y swyddogion fod y ffigwr yn adlewyrchu'r rhwymedigaethau yswiriant amcangyfrifedig ar gyfer difrod llifogydd i eiddo a cholli enillion.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd digon o adnoddau yn cael eu dyrannu i glirio gylïau. Dangosodd y Swyddogion y byddai adnoddau ychwanegol yn galluogi risg o lifogydd gael ei leihau ymhellach. Roedd 26,000 o dan risg o lifogydd a gofynnodd swyddogion sut y gellir lleihau'r ffigwr hwnnw o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Ychwanegodd yr Aelod y bydd y datblygiadau newydd yn cael systemau draenio well wedi'u hadeiladu i mewn, a fydd yn helpu i liniaru'r risg o lifogydd ymhellach.
- Mewn perthynas â'r 348 o ddigwyddiadau o garthfositydd yn gorlifo a restrir yn yr adroddiad, gofynnodd yr aelodau a fu'n bosibl i adnabod unrhyw achosion masnachol. Dywedodd Nick Holt ei fod yn anodd priodoli'r fath ddigwyddiadau llifogydd i adeiladau penodol, ond mae Dŵr Cymru yn rhoi cyngor i fusnes o ran y dulliau gorau i waredu braster, olew a saim. Dywedodd Matt Wakelam wrth y Pwyllgor fod adeiladau masnachol y mae angen iddynt fod â contract trosglwyddo gwastraff ar waith mewn perygl o gael Hysbysiad Cosb Benodedig.

- Cadarnhaodd y Swyddogion fod Caerdydd yn cymharu'n ffafriol gydag awdurdodau eraill yn nhermau ei hamddiffynfeydd yn erbyn llifogydd.

PENDERFYNWYD – Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i Aelodau Cabinet i gyfleu sylwadau a mynegiadau'r Pwyllgor.

23 : CYNLLUN LLIFOGYDD Y RHATH

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad sy'n darparu cyfle i adolygu cynnydd datblygiad a gweithredu Cynllun Llifogydd Rhufell.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, fod llawer o gartrefi a busnesau yn ardal y Rhath o'r Ddinas mewn perygl o lifogydd. Gorfodd Nant Lleucu yn 2007 2009, 2010 a 2012 yn ystod llifoedd afon uchel a llanwau uchel. Rhagwelir y bydd llifogydd yn cynyddu dros amser, fel bod lefelau'r môr yn codi a rhagwelir glaw trwm mwy aml a dwys. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyllid i gynlluniau rheoli'r risg o lifogydd yng Nghymru er mwyn lleihau'r risg a lliniaru effaith y digwyddiadau llifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn y broses o gyflwyno Cynllun Rheoli'r Risg o Lifogydd yn ardal Y Rhath mewn nifer o leoliadau ar hyd Nant Lleucu rhwng Gerddi Nant Lleucu ac Afon Rhymni ar Heol Casnewydd. Roedd mesurau lliniaru'r risg o lifogydd yn cynnwys waliau ac argloddiau, er mwyn cynnwys tirlunio. Roedd CNC hefyd i ehangu'r sianel yng Ngerddi Nant Lleucu a gwella nifer o bontydd er mwyn cynyddu capasiti llif y Nant.

Er mwyn cyflawni'r amddiffyniad gofynnol yn erbyn llifogydd mae'n rhaid dileu nifer o goed ar hyd glannau Nant Lleucu. Comisiynodd CNC arolwg o'r holl goed yn y pedair gardd a nododd y coed i'w dileu, y rhai a fyddai angen eu hamddiffyn a ble mae gofyn am blannu ychwanegol.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod CNC yn cydnabod pryderon y gymuned leol ac mae dyluniad y cynllun wedi ceisio lleihau'r effeithiau. Fodd bynnag, bydd y cynllun yn cynnwys dileu 149 o goed ac i wneud yn iawn am hyn bydd CNC yn plannu 105 o goed. O'r 149 o goed a nodwyd i'w dileu, mae 111 wedi'u categorio fel rhai sydd o safon isel, wedi marw neu'n ifanc ac mae 38 wedi'u categorio fel aeddfed, safon dda neu safon uchel.

Nod CNC yw sicrhau bod Cynllun Llifogydd Y Rhath yn darparu cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned trwy blannu coed ychwanegol mewn parcdir ledled Caerdydd a thrwy weithio gydag ysgol leol gan gynnig glasbrennau coed i blant ysgol i'w plannu gartref. Bydd hyn yn galluogi CNC i gynyddu'r plannu cyffredinol i'w osod yn erbyn y coed hynny a gaiff eu dileu heb allu eu hadnewyddu. Bydd integreiddio celf gyhoeddus i'r cynllun hefyd yn cefnogi nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Darparodd yr adroddiad fanylion o'r ymgynghoriad yr ymgwymerwyd ag ef fel rhan o'r cynllun. Defnyddiwyd yr adborth a dderbyniwyd gan yr ymarfer ymgynghori i ffurfio'r cynllun terfynol. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cynnwys:

- Cnocio ar ddrysau a chyfarfodydd cyhoeddus
- Sesiynau galw heibio i'r cyhoedd
- Stondin yn Ffair Gerddi Waterloo
- Cerdded o gwmpas y safle gyda phreswylwyr eraill

- Hysbysebion i'r wasg, hysbysiadau safle a llythyrau ymgynghori i eiddo sydd ar ymylon y gerddi
- Diweddariadau rheolaidd trwy gylchlythyrau, posteri, tudalen we a chyfryngau cymdeithasol

Croesawodd y Cadeirydd Tim England, Gareth Jones a Paul Isaac o Cyfoeth Naturiol Cymru a Dr Johansson, yn cynrychioli preswylwyr lleol. Gwahoddwyd Gareth Jones i wneud cyflwyniad ar Gynllun Llifogydd Y Rhath. Gwahoddwyd Dr Johansson i roi ei chyflwyniad ar atebion eraill posibl. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn sylwadau gan nifer o breswylwyr lleol.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelod pe bai'r gwaith a gynigiwyd mewn 2 ardd ddim yn mynd yn ei flaen, faint o goed a fyddai wedi'u torri beth bynnag a faint o arian a gâi ei arbed. Dywedodd Gareth Jones fod y costau ar gyfer modelau ar wahân ar gael ac felly nid oedd costau peidio â mynd ymlaen mewn rhai lleoliadau yn glir. Hefyd nid oedd yn glir faint o'r coed fyddai wedi cael eu torri. Mae torri un goeden yn costio tua £1,000.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai 122 o goed aeddfed yn cymryd lle y 140 sydd i gael eu torri. Dywedodd Gareth Jones y cynigiwyd i ddisodli'r coed i'w colli gyda choed o safon gyda ffordd i sefydlu eu hunain yn hytrach na disodli nifer y coed a gollwyd.
- Cydnabu'r Aelodau fod hwn yn fater emosiynol sy'n cynnwys aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, sicrhawyd i'r Pwyllgor y bydd sbesimenau aeddfed yn disodli'r coed a gollir. Cadarnhaodd Gareth Jones, er mwyn lleihau effaith y cynllun ar breswylwyr lleol, câi cynllun o safon uchel, gydag amrywiaeth a stoc da ei ddarparu.
- Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai 100 mlynedd oedd oes y cynllun. Gellir codi safon yr amddiffynfa yn erbyn llifogydd os bydd y risg o lifogydd yn cynyddu yn y dyfodol. Byddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn seiliedig ar dystiolaeth a chaiff ystadegau ac arweiniad ar newid yn yr hinsawdd eu cadw o dan arolygiad.

- Cadarnhaodd Gareth Jones yr ymgynghorwyd â CADW fel rhanddeiliad ffurfiol. Nid wrthwynebodd CADW i'r cais cynllunio.
- Ystyriodd yr Aelodau y cafodd sylwadau cyferbyniol eu derbyn ynglŷn ag angen y cynllun amddiffyn yn erbyn llifogydd. Dywedodd Gareth Jones fod penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac roedd CNC yn hyderus bod eu dystiolaeth yn gadarn ac yn gywir. Bu 432 ar hyd y cynllun, yr oedd 140 i'w torri, sy'n cynrychioli 1/3. Roedd 122 i'w hailblannu ac felly câi 5% eu colli. Nid oedd Gareth Jones yn ystyried bod hyn yn nifer sylweddol ac fe'i hystyriwyd yng nghynllun y cynllun. Câi coed eu hailblannu yn yr un lleoliadau neu rai tebyg er mwyn lleihau effaith weledol y cynllun.
- Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd yn bosibl oedi gweithredu'r cynllun gan fod tymor nythu yn dechrau ym mis Ebrill ac yn y senario gwaethaf câi'r cynllun ei oedi tan i'r adar fagu plu.
- Cadarnhaodd Gareth Jones mai'r gyllideb wreiddiol ar gyfer y cynllun oedd £15.7 miliwn – cafodd hyn ei lleihau i £11.5 miliwn. Roedd y prif gostau am adeiladu a dylunio'r cynllun.
- Gan ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, cytunodd CNC i ddarparu crynodeb o'r ystod o ymgynghoriad cyhoeddus yr ymgwymerwyd ag ef.
- Mae cynlluniau tebyg eraill gan gynnwys enghreifftiau yn Nolgellau a Henffordd. Mae CNC wedi ymrwmo i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ym mhob parc am gyfnod o 3 blynedd a'r tu hwnt i hynny, caiff cefnogaeth ariannol ei darparu i'r Cyngor.
- Gofynnodd yr Aelodau a ystyriwyd rhwystrau llifogydd y gellir eu tynnu'n ôl fel ateb. Dywedodd Gareth Jones yr ystyriwyd yr ymagwedd hon fel rhan o'r ymarfer gwerthuso opsiynau, ond mae rhwystrau'n ddud a byddai eu defnyddio'n gofyn am ddargyfeirio gwasanaethau eraill ac felly ni ystyrid rhwystrau yn hyfyw.
- Dywedwyd wrth yr aelodau bod cynllun iawndal ar gael i fusnesau bach yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt. Cafodd cost y cynllun iawndal ei chynnwys yn y gyllideb o £11.5 miliwn. Cafodd taliadau dros dro eu gwneud i nifer o fusnesau.

PENDERFYNWYD – Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i Aelodau Cabinet i gyfleu sylwadau a mynegiadau'r Pwyllgor.

24 : ADRODDIAD PERFFORMIAD CYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU'R DDINAS A GWASANAETHAU CYDWEITHREDOL AR GYFER CHWARTER 1 A 2 2017/18.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau Gweithrediadau'r Ddinas a'r Gwasanaethau Masnachol a Chydweithredol ar gyfer Chwarter 1 a 2 2017/18. Gofynnwyd i Aelodau ystyried yr adroddiadau a rhoi arsylwadau ac ystyried cynnwys yr adroddiadau perfformiad.

Cafodd nifer o arsylwadau allweddol o'r adroddiadau perfformiad ar gyfer pob cyfarwyddiaeth eu crynhoi yn y prif adroddiad.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd, Andrew Gregory, y Cyfarwyddwr Corfforaethol; a Tara King, i'r cyfarfod. Gwnaeth yr Aelod Cabinet ddatganiad byr a darparodd y swyddog gyflwyniad ar ganlyniadau'r adroddiad perfformiad.

Gofynnwyd i Aelodau wneud sylw, gofyn am eglurhad neu godi cwestiwn ynghylch y wybodaeth a gyflwynwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

Gweithrediadau'r Ddinas

- Gofynnodd yr aelodau pa ganran o gyfanswm y gorwariant oedd yn perthyn i absenoldeb oherwydd salwch ac a fyddai'n bosibl i swyddogion ddarparu dadansoddiad cymharol o gostau absenoldeb tymor byr a hirdymor oherwydd salwch. Nid oedd gan Swyddogion y wybodaeth ar gael ond cynigiodd darparu'r manylion hyn gyda'r Pwyllgor.
- Gofynnodd aelod faint o gerbydau sydd â thechnoleg wedi'i gosod yn eu cabiau. Dywedodd y Swyddogion fod trafodaethau ynglŷn â symud at dechnoleg symudol ac yn y cab yn barhaus.
- Croesawodd aelodau welliannau technolegol megis y system monitro parcio ceir. Fodd bynnag, roedd Aelodau yn pryderu bod diffyg technoleg ym meysydd eraill, megis gorfodi parcio, a oedd yn dibynnu ar system sy'n seiliedig ar bapur o hyd. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol a dywedodd fod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddigidoli gorfodi parcio yn systematig.
- Roedd aelodau'n synnu bod 95% o'r strydoedd yn cael eu sgorio'n uchel neu'n dderbyniol yn nhermau glanweithdra. Derbyniodd swyddogion fod rhai strydoedd yn is na'r safon ac mae'r gwasanaeth yn ceisio mynd i'r afael â materion yn gynharach trwy fabwysiadau ymagwedd holl olygfa'r stryd.
- Gofynnodd yr Aelodau beth oedd amcanion y parthau 20 mya ac a gydymffurfir â nhw. Dywedodd y Swyddogion mai'r nod oedd sicrhau bod ardaloedd sydd â'r traffig mwyaf yn amgylcheddau diogel. Mae'r parthau 20mya yn tanategu teithio llesol, newid modd a buddion eraill.

Gwasanaethau Masnachol

- Croesawodd y Pwyllgor y cynnig i symud tuag at gerbydau fflyd hybrid.
- Mynegwyd pryderon o ran y 18,000 o gasgliadau a gollwyd ac yr adroddwyd amdanynt. Gofynnodd yr Aelodau pa ganran o'r gorwariant oedd yn perthyn i gasgliadau a gollwyd. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd technoleg yn y cab yn helpu o ran lleihau ac atal methiannau o ran y gwasanaeth. Mae llawer o gasgliadau a gollwyd yn ganlyniad i broblemau o ran mynediad ac mae rhywfaint o wastraff yn cael ei gyflwyno'n hwyr gan breswylwyr. Yn y dyfodol os adroddir am gasgliadau a gollir, bydd y system newydd yn caniatáu i weithredwyr ddychwelyd. Dywedodd yr Aelod Cabinet, o 24 miliwn o gasgliadau, collwyd 18,000 – neu 0.25%. Roedd nifer o resymau dros gasgliadau a gollwyd gan gynnwys coed sydd wedi cwmpo a gwaith ar y ffordd. Y targed oedd lleihau'r

18,000 o gasgliadau a gollwyd i sero.

- Gan ymateb i bwynt a wnaed gan Aelod y Pwyllgor, dangosodd swyddogion, pan fydd methiannau'n digwydd dro ar ôl tro, yn aml roedd materion aciwt i'w hystyried, megis materion o fynediad.
- Gofynnodd yr aelodau a all y dechnoleg yn y cab gael ei ddefnyddio hefyd gan weithredwyr i adrodd am faterion yn y fan a'r lle, megis tipio anghyfreithlon. Cadarnhaodd swyddogion fod mecanwaith ar gyfer adrodd am broblemau.
- Gofynnodd aelodau am adborth ar y cynllun er mwyn gwella ansawdd gwastraff gardd. Dywedwyd wrth aelodau bod lefelau halogiad wedi cael eu lleihau a bu gwelliant pendant yn safon y gwastraff gardd. Cytunodd y swyddogion i roi rhagor o wybodaeth ar y pwynt hwn.
- Gofynnodd yr Aelodau sut mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch mewn timau casglu gwastraff yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill. Dywedwyd wrth yr aelodau fod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn y timau hyn yn debyg neu'n is nag mewn awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, yn y sector preifat mae cyfraddau'n is ond mae ganddynt bolisïau gwahanol gydag ymagwedd fwy llym at bresenoldeb.

PENDERFYNWYD – Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i Aelodau Cabinet i gyfleu sylwadau a mynegiadau'r Pwyllgor.

25 : PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD - ADOLYGIAD O'R RHAGLEN WAITH

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, gofynnodd y Cadeirydd am oedi'r gwe-ddarllediad. Cynigiwyd na ddylai'r gwe-ddarllediad barhau. Pleidleisiwyd ar y cynnig a chytunodd y Pwyllgor na ddylai'r gwe-ddarllediad barhau. Cododd y Cynghorydd Hill-John bryderon fod y gwe-ddarllediad wedi'i stopio cyn bod y Pwyllgor wedi rhoi ei gymeradwyaeth. Gofynnodd y Cynghorydd Hill-John i'w hanghytundeb gael ei gofnodi yn y cofnodion.

PENDERFYNWYD –:

- (1) Y byddai cyfarfodydd yn y dyfodol yn canolbwyntio ar lai o eitemau er mwyn sicrhau y caiff eitemau eu craffu'n drwyadl;
- (2) Gwnaeth Aelod gais y dylid adolygu eitemau agenda er mwyn sicrhau bod diben ymarferol i'r craffu.
Wrth wneud y pwynt hwn, cwestiynodd yr Aelod rinweddau craffu ar Gynllun Llifogydd Y Rhath ac awgrymodd y dylid asesu eitemau yn y dyfodol er mwyn sicrhau y gallai'r craffu ychwanegu gwerth;
- (3) Er mwyn adlewyrchu'r ceisiadau a wnaed yn (1) a (2) uchod, cytunodd y Pwyllgor i dderbyn rhaglen waith ddiwygiedig yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2018.

26 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 16 IONAWR 2018

Rhoddwyd gwybod i aelodau y byddai cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 16 Ionawr 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 pm